COFNODION CYFARFOD PWYLLGOR POLISI A CHYLLID, CYNGOR TREF BAE COLWYN, A GYNHALIWYD NOS FERCHER, 30AIN MAWRTH 2016 AM 6.30 P.M. YN YR YSTAFELL BWYLLGOR, NEUADD Y DREF, FFORDD RHIW, BAE COLWYN

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Dr S. Roy (Maer y Dref),
Y Cynghorydd D. Griffiths, (Cadeirydd)
Cynghorwyr: J. Davies, Mrs H Meredith, T Pearson, Mrs V Perry, P Richards, Mrs V Smith, S Taylor

SWYDDOG: Mrs C. J. Earley, Clerc y Dref
Mr H. Barlow-Edwards, Myfyriwr Ymgynghorol.

388/15 Croeso ag Ymddiheuriadau am Absenoldeb:

Agorwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd a derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr A. Khan, A. Mason a T. Mason, Myfyriwr Ymgynghorol.

389/15 Datgan Cysylltiadau:

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiadau personol a / neu gysylltiadau sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Datganwyd y cysylltiadau canlynol:

a. Cynghorydd S. Roy – Cadeirydd NWAMI – cais am grant bach gan NWAMI – cysylltiad personol ag un a all rhagfarnu.

b. Cynghorwyr J. Davies, H. Meredith a V. Smith - Ymddiriedolwyr Cronfa Elusen Syr John Henry Morris Jones - cyfraniad i'r Ymddiriedolaeth - cysylltiadau personol a rhai all rhagfarnu.

390/15 Cofnodion:

a. ***Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi cywirdeb cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 17eg Chwefror 2016***

b. ***Penderfynwyd derbyn copi o gofnodion cyfarfod Is-Bwyllgor Amwynderau a gynhaliwyd ar 22ain Mawrth 2016.***

391/15 Materion yn Codi o Gyfarfodydd Blaenorol:

a. Cofnod 342/15 - Darpariaeth ar gyfer Cynllun Chwarae'r Haf:

Fe nodwyd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) wedi paratoi canllaw 'Allan i Chwarae Conwy'. Cyflwynodd y Clerc llythyr i'w ystyried gan GBSC yn rhoi mwy o wybodaeth a'r costau o ddarparu 'Chwarae Allan' yr haf hwn.

Ystyriwyd y ddarpariaeth bwriedig o un sesiwn chwarae'r wythnos am bum wythnos am gost o £1,218.10 gan yr Aelodau. Trafodwyd hefyd y lleoliadau yn ardal Bae Colwyn fel y darparwyd gan y Clerc. Cadarnhaodd y Clerc bod cyllid o £4,500 wedi cael ei glustnodi ar gyfer darparu chwaraeon yn 2016/17 ond bod arian ychwanegol ar gael o'r arian cyffredinol wrth gefn os oedd angen.

Penderfynwyd argymell bod y Cyngor yn gofyn am bum wythnos o 'Chwarae Allan' yn ystod y gwyliau yn y mannau canlynol yn ardal Bae Colwyn am gyfanswm o £6,909.50 (£2,409.50 i ddod o'r arian wrth gefn):

i. Tan y Lan, Hen Golwyn
ii. Parc Min y Don, Hen Golwyn
iii. Ysgol Nant y Groes, Bae Colwyn (Pendorlan gynt)
iv. Canolfan Bryn Cadno / MUGA, Bae Colwyn Uchaf
v. Parc Rhos / Maes Chwarae Ffordd yr Eglwys, Llandrillo yn Rhos

392/15 <u>Cyllid:</u>

a. ***Penderfynwyd rhoi awdurdod am y taliadau a wnaed ar ran y Cyngor am y cyfnod 12/2/16 hyd at 18/3/16 fel y maent yn ymddangos yn Atodlen 'A' sydd gyda hwn..***

b ***Penderfynwyd derbyn ac awdurdodi'r Cadeirydd i wirio ag arwyddo copi o'r datganiadau banc diweddaraf fel ag yr oedd ar 29/2/2016.***

c Cyflwynodd y Clerc y wybodaeth ddiweddaraf am bris Cronfa Eiddo Awdurdodau Lleol er gwybodaeth. Dywedodd wrth yr Aelodau bod cyfarfod diweddar o Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol wedi derbyn cyngor yn cadarnhau ei bod yn angenrheidiol i unrhyw incwm o'r buddsoddiad Cyfalaf hwn cael ei wario ar asedau cyfalaf neu ei ail-fuddsoddi pob blwyddyn. Gan fod y Cyngor wedi ychwanegu £50,000 i'r arian cyfalaf wrth gefn ym mhob un o'r ddwy flynedd diwethaf (gan greu cyfanswm buddsoddiad o £150,000), ni fu'n rhaid gweithredu eleni. Fodd bynnag, efallai bydd angen ail-fuddsoddi incwm yn y dyfodol os na wnaed unrhyw bryniant cyfalaf sy'n gyfwerth a'r incwm a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn.

Penderfynwyd derbyn a nodi cyngor y Clerc a pharatoi'n briodol ar gyfer 2016/17.

ch Cyflwynodd y Clerc adroddiad am wir incwm a gwariant yn dangos y gymhariaeth gyda chyllidebau fel yr oeddynt ar 29/2/2016. Fe nodwyd bydd y gwaith o gasglu incwm a chlirio unrhyw wariant a therfynu'r cyfrifon diwedd y flwyddyn ar gyfer yr archwiliad yn digwydd yn ystod yr wythnosau nesaf,

393/15 <u>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC):</u>

a. Creu Eich Lle Eich Hun: Fe nodwyd bod Ingrid Lewis yn gweithio gyda Ffederasiwn Amgylcheddol Bae Colwyn ar gais cam cyntaf i Gronfa'r Loteri Fawr 'Creu Eich Lle Eich Hun'. Cyflwynwyd manylion am gronfa'r grant gan y Clerc, er gwybodaeth.

b. <u>Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned:</u> Cyflwynodd y Clerc neges e-bost yn cadarnhau bod CBSC wedi penodi Jane Richardson yn ddiweddar i fod yn Gyfarwyddwr Strategol Economi a Lle ac y byddai'n gweithio fel yr arweinydd strategol rhwng y Cyngor Sir a Chynghorau Tref a Chymuned (yn cymryd lle Ken Finch, sydd newydd ymddeol). Er mwyn iddi gael amser i ddod yn gyfarwydd â'i chyfrifoldebau, ni chynhelir unrhyw gyfarfodydd o'r Fforwm tan fis Medi.

Penderfynwyd derbyn yr ohebiaeth a'i nodi

394/15 Llywodraeth Cymru (LlC):

Cyflwynodd y Clerc yr ohebiaeth ganlynol oddi wrth LlC i'w ystyried:

a. Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol - Cyfarwyddyd Statudol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Dywedodd y Clerc wrth yr Aelodau bydd yr eitem yma ar agenda cyfarfod nesaf Rhwydwaith Clercod Conwy, mewn ymgais i gychwyn deialog gyda CBSC am ymglymiad Cynghorau Tref a Chymuned yn yr asesiad o lesiant yn eu hardaloedd a dynodi amcanion llesiant priodol.

Penderfynwyd derbyn yr ohebiaeth a'i nodi a disgwyl am ddiweddariad pellach gan y Clerc.

395/15 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol:

Cyflwynodd y Clerc yr Adroddiad Blynyddol i'w ystyried, a gofynnwyd i'r Aelodau ystyried pa benderfyniadau i fabwysiadu parthed talu lwfansau i aelod yn 2016/17. Cafwyd trafodaeth am hawliau aelodau i dderbyn y lwfans sylfaenol o £100 yr un a'r lwfans ychwanegol i Gadeiryddion ar gyfer costau o fod allan o boced wrth gyflawni eu swyddogaeth wirfoddol o fod yn gynghorydd lleol, megis y defnydd o'r rhyngrwyd a'r ffon , os byddant yn dewis ei hawlio. Nid oedd y mwyafrif o blaid hyn.

Penderfynwyd argymell bod y Cyngor yn mabwysiadu penderfyniadau 48. 49, 50, 52, 53 a 54 fel y maent yn ymddangos yn Atodlen 'B' sydd gyda hwn ond nid penderfyniadau 46, 47 a 50.

Fe benderfynwyd ymhellach i nodi'r angen am gyhoeddusrwydd fel yr amlinellir ym mharagraff 10.10 o'r adroddiad hwnnw.

396/15 Pensiynau:

a. Cyflwynodd y Clerc llythyr oddi wrth y Rheolydd Pensiynau yn rhoi manylion am yr angen i'r Cyngor cadarnhau bod ganddo gynllun pensiwn sy'n addas i hunan gofrestriad ac i gychwyn ar ei ddatganiad o gydymffurfiad erbyn 1 Gorffennaf 2016.

Penderfynwyd cadarnhau mai Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Pensiynau Gwynedd) yw'r cynllun a ddewiswyd gan y Cyngor a gorchymyn y Clerc i gychwyn ar y datganiad o gydymffurfiad.

b. Fe nodwyd bydd Gwerthusiad Teirblwydd Cynllun Pensiwn Gwynedd yn digwydd eleni i benderfynu graddfeydd cyfraniad y Cyngor am y cyfnod 2017-2020.

397/15 Lwfansau Ward Aelodau Lleol:

Cyflwynodd y Clerc y cynigion prosiect terfynol a dderbyniwyd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31/3/16 i gael eu hystyried.

Penderfynwyd cymeradwyo'r cynigion am brosiectau fel y maent wedi eu crynhoi yn Atodlen 'C' sydd gyda hwn, ar yr amod bod y Cynghorydd M. Jones yn cyflwyno mwy o wybodaeth am Gymdeithas 'Go Green', at beth fydd y cyllid yn cael ei ddefnyddio ac oddeutu faint o drigolion ardal Bae Colwyn fydd yn cael buddiant.

Fe benderfynwyd ymhellach i ddwyn ymlaen unrhyw lwfansau na wariwyd o 2015/16 hyd at uchafswm o £300 yr aelod.

398/15 <u>Hyfforddiant a Datblygiad Staff:</u>

Cyflwynodd y Clerc i'w ystyried:

a. Adroddiad byr am Gynhadledd Ymarferwyr Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol a gynhaliwyd ar 25ain/26ain Chwefror 2016.

b. Hysbysiad bod y Clerc wedi cael cynnig lle am ddim yn y gynhadledd un dydd ar y cyd gyda Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol (CCCLl) / Un Llais Cymru yn dilyn ei llwyddiant mewn raffl ddiweddar i ymatebwyr ar arolwg o anghenion am hyfforddiant.

c. Copi o agenda a chais am gefnogaeth iddi fod yn bresennol yng Nghynhadledd Arweinyddiaeth ar Waith CCCLl ar 9fed-10fed Mehefin am bris gostyngedig o £330 (fe wnaed cais llwyddiannus am fwrsari o £50 fel cynrychiolydd am y tro cyntaf).
Gofynnwyd i'r Clerc edrych am gynadleddau neu ddigwyddiadau hyfforddi CCCLl a fyddai'n addas i'r Clerc Cynorthwyol ac fe nodwyd ei bod yn parhau i weithio gyda deunydd hyfforddiant 'Gweithio gyda'ch Cyngor'.

399/15 <u>Grantiau:</u>

a. Cyflwynodd y Clerc argymhellion yr Is-Bwyllgor Amwynderau parthed Grantiau Ieuenctid 2015/16 i'w ystyried.

Penderfynwyd cymeradwyo argymhellion yr Is-Bwyllgor Amwynderau fel y maent yn ymddangos yn Atodlen 'A' o'r Cofnodion hynny.

b. Cyflwynodd y Clerc un cais i'w ystyried gan ysgol leol (Ysgol Llandrillo yn Rhos) parthed grantiau Pen-blwydd 90 y Frenhines. Fe nodwyd bod pob un o'r naw ysgol gynradd leol wedi derbyn y wybodaeth ond dyma'r unig ymateb a dderbyniwyd, hyd yn hyn.

Penderfynwyd:

i ***Cymeradwyo'r cais gan Ysgol Llandrillo yn Rhos am £250, yn amodol ar dderbyn tystiolaeth o wariant sy'n dod i gyfanswm y swm yma.***

ii ***Rhoi awdurdod dirprwyol i Gadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor hwn, ynghyd a'r Clerc, i ystyried a chymeradwyo unrhyw geisiadau hwyr a dderbynnir yn dilyn y toriad dros y Pasg.***

c. Cyflwynodd y Clerc y ceisiadau olaf am grantiau bach am 2015/16 i gael eu hystyried.

- Gadawodd y Cynghorydd S. Roy y cyfarfod yn ystod yr ystyriaeth o gais NWAMI am grant gan iddi ddatgan cysylltiad personol ag un a all ragfarnu.

Penderfynwyd argymell bod y Grantiau Bach yn cael eu cymeradwyo fel y maent yn ymddangos yn Atodlen 'C' sydd gyda hwn, a bod dau ohonynt yn cael eu talu allan o'r Grantiau Ieuenctid sy'n weddill o 2015/16.

ch. Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried gwneud cyfraniad tuag at gronfa Ymddiriedolaeth Syr J.H.M. Jones allan o gronfeydd grant ieuenctid neu grantiau bach na wariwyd. Fe nodwyd, yn dilyn dosbarthiad heno, roedd oddeutu £4,500 heb ei ddyrannu yn y ddwy gronfa yma o 2015/16.

Gadawodd y Cynghorwyr J. Davies, H. Meredith a V. Smith y cyfarfod tra bu'r yma yn cael ei drafod am iddynt ddatgan cysylltiad personol ag un a all ragfarnu.

Penderfynwyd cymeradwyo cyfraniad o £4,500 i Gronfa'r Ymddiriedolaeth allan o'r arian na wariwyd o gyllidebau'r grantiau bach ac ieuenctid na wariwyd o 2015/16.

d. Cyflwynodd y Clerc cais hwyr am grant mawr gan Ofal Profedigaeth Cruse Cyf. Fe nodwyd bod Cruse yn gwneud cais pob blwyddyn am grant mawr ar gyfer eu costau o ddefnyddio swyddfa yn Neuadd y Dref. Yn anffodus, fe ymddeolodd y trysorydd yn hwyr y llynedd ac nid oedd y trysorydd newydd yn ymwybodol o'r angen i wneud cais am gyllid. Yn yr amgylchiadau, fe benderfynodd yr Aelodau i ystyried y cais hwyr.

Penderfynwyd cymeradwyo grant mawr hwyr o £2,300 i Ofal Profedigaeth Cruse tuag at rent y swyddfa yn Neuadd y Dref Bae Colwyn ac i gynyddu cyllideb y grantiau mawr yn unol â hyn (allan o'r arian wrth gefn).

Daeth y cyfarfod i ben am 7.10 p.m.

.....Cadeirydd

MINUTES OF A MEETING OF THE POLICY AND FINANCE COMMITTEE OF THE BAY OF COLWYN TOWN COUNCIL, HELD IN THE COMMITTEE ROOM, TOWN HALL, RHIW ROAD, COLWYN BAY AT 6.30 P.M. ON WEDNESDAY 30TH MARCH 2016

PRESENT: Cllr S Roy (Town Mayor)
Cllr D Griffiths (Chairman)
Cllrs: J Davies, Mrs H Meredith, T Pearson, Mrs V Perry, P Richards, Mrs V Smith, S Taylor

OFFICERS: Mrs C Earley, Town Clerk
Mr H Barlow-Edwards, Student Advisor

389/15 Welcome & Apologies for Absence:

The Chairman opened the meeting and apologies for absence were received from Cllrs: A Khan, A Mason and T Owens, Student Advisor.

390/15 Declarations of Interest:

Members were reminded that they must declare the existence and nature of any personal and/or prejudicial interests. The following interests were declared:

a. Cllr S Roy – Chair of NWAMI – small grant application by NWAMI – personal and prejudicial interest.
b. Cllrs J Davies, H Meredith and V Smith – Trustees of the Sir John Henry Morris Jones Trust Fund – donation to the Trust – personal and prejudicial interests.

391/15 Minutes:

a. ***Resolved to receive, approve and sign as a correct record the Minutes of the last meeting, held on 17th February 2016.***
b. ***Resolved to receive a copy of the Minutes of the Amenities Sub-Committee, held on 22nd March.***

392/15 Matters Arising from Previous Minutes:

a. Min. 342/15 – Summer Play Scheme provision:

It was noted that CCBC has produced a 'Go and Play Conwy' guide and the Clerk submitted, for consideration, a letter from CCBC giving further information and costs for 'Playing Out' provision this summer.

Members considered the proposed provision of one play session per week for five weeks, at a cost of £1,218.10, and discussed the possible locations in the Bay of Colwyn area, as drafted by the Clerk. The Clerk confirmed that a budget of £4,500 had been set aside for play scheme provision for 2016/17, but that additional funding was available in general reserves, if required.

Resolved to recommend that the Council requests five weeks of 'Playing Out' holiday play provision at the following locations within the Bay of Colwyn area, at a total cost of £6,909.50 (£2,409.50 to come from reserves):

i. Tan y Lan, Old Colwyn
ii. Min y Don Park, Old Colwyn
iii. Nant y Groes School, Colwyn Bay (previously Pendorlan)
iv. Bryn Cadno Centre/MUGA, Upper Colwyn Bay
v. *Rhos Park / Church Road Play Area, Rhos on Sea*

393/15 <u>Finance</u>:

a. ***Resolved to authorise payments made on behalf of the Council for the period 12/2/16 to 18/3/16, as detailed in Schedule 'A' attached.***

b. ***Resolved to receive and authorise the Chair to check and sign the latest bank reconciliations, as at 29/2/2016.***

c. The Clerk submitted, for information, the latest Local Authorities' Property Fund price information and advised members that advice had been received at a recent SLCC branch meeting confirming that it is necessary for any income received from this Capital investment to be either spent on capital assets or re-invested each year. As the Council had added £50,000 to the capital reserve in each of the past two years (giving a total investment of £150,000), it was not necessary to take any action this year. However, future income may need to be reinvested, if capital purchases equivalent to the value of the income received have not been made during the year.
Resolved to receive and note the advice from the Clerk and make appropriate provision for 2016/17.

d. The Clerk submitted an income and expenditure report showing actuals against budgets as at 29/2/2016. It was noted that work on chasing any year end income and expenditure and finalising the year-end accounts ready for audit will be taking place during the next few weeks.

394/15 <u>Conwy CBC:</u>

a. Create your Space: It was noted that Ingrid Lewis is working with the Colwyn Bay Environment Federation on a stage one bid to the Big Lottery's 'Create your Space' fund. Details about the grant fund were submitted by the Clerk, for information.

b. Town & Community Council Forum: The Clerk tabled an e-mail confirming that CCBC had recently appointed Jane Richardson as the new Strategic Director for Economy and Place and that she would be acting as the new strategic lead between the County Council and the Town and Community Councils (in place of Ken Finch, who had recently retired). To enable her time to become fully acquainted with her responsibilities, there will be no meetings of the Forum until September.

Resolved to receive and note the correspondence.

395/15 <u>Welsh Government</u>:

The Clerk submitted, for information, the following WG correspondence:

a. Shared Purpose: Shared Future – Statutory Guidance for the Wellbeing of Future Generations Act 2015

The Clerk advised members that this item would be on the agenda for the next meeting of the Conwy Clerks' Network, in an attempt to begin dialogue with CCBC about the involvement of Town and Community Councils in assessing the well-being of their areas and identifying suitable well-being objectives.

Resolved to receive and note the correspondence and await any further update from the Clerk.

396/15 <u>Independent Remuneration Panel for Wales:</u>

The Clerk submitted, for consideration, the Annual Report and members were asked to consider which determinations to adopt for payment of allowances to members for 2016/17. A discussion took place over whether members should be entitled to receive the basic allowance of £100 each and the additional allowance for Chairs, if they chose to claim it, to cover any out-of-pocket expenses they incur in undertaking the voluntary role of a local councillor, such as internet and phone usage. The majority were not in favour of this.

Resolved to recommend that the Council adopts determinations 48, 49, 50, 52, 53 and 54, as detailed in Schedule 'B' attached, but not determinations 46, 47 and 50.

Further resolved to note the publicity requirements, as outlined in paragraph 10.10 of that report.

397/15 <u>Pensions:</u>

a. The Clerk submitted a letter from the Pensions Regulator, detailing the requirement for the Council to confirm it has a pension scheme suitable for auto-enrolment and commence its declaration of compliance by 1 July 2016.

Resolved to confirm that the Local Government Pension Scheme (Gwynedd Pensions) is the chosen scheme of the Council and instruct the Clerk to commence the declaration of compliance.

b. It was noted that the Triennial Valuation for the Gwynedd Pensions Scheme will take place this year to determine the council's contribution rates for the period 2017-2020.

398/15 <u>Local Members Ward Allowances:</u>

The Clerk submitted, for consideration, the final project proposals received for year ending 31/3/16.

Resolved to approve the project proposals, as summarised in Schedule 'C' attached, subject to further information from Cllr M Jones regarding the 'Go Green' Association, what the funding will be used for and approximately how many residents from the Bay of Colwyn area would benefit.

Further resolved to carry forward any unspent allowances from 2015/16, up to a maximum of £300 per member.

399/15 <u>Staff Training and Development:</u>

The Clerk submitted, for consideration:

a. A brief report from the on the recent Society of Local Council Clerks' Practitioners' Conference, held on 25th/26th February 2016.

b. Notice that the Clerk has been offered a free place at the joint SLCC/OVW one day conference in Swansea on 22nd June, following her success in a draw for respondents to a recent training needs survey.

c. A copy of the agenda and a request for support for her to attend the SLCC Leadership in Action Conference on 9th-10th June, at a reduced rate of £330 (£50 bursary successfully applied for, as a first time delegate).
It was requested that the Clerk also looks out for any suitable SLCC conferences or training events for the Assistant Clerk and it was noted that she is still working through the 'Working with your Council' training materials.

400/15 <u>Grants:</u>

a. The Clerk submitted, for consideration, the recommendations of the Amenities Sub-Committee in respect of Youth Grants for 2015/16.

Resolved to approve the recommendations of the Amenities Sub-Committee, as detailed in Schedule 'A' to those Minutes.

b. The Clerk submitted, for consideration, one request from a local school (Ysgol Llandrillo yn Rhos) in connection with Queens 90th Birthday grants. It was noted that information had been sent to all nine local primary schools but that this was the only response received, to date.

Resolved:

i. ***To approve the request for £250 from Ysgol Llandrillo yn Rhos, subject to receipt of evidence of expenditure totalling this amount***

ii. ***To delegate authority to the Chairman and Vice-Chairman of this Committee, together with the Clerk, to consider and approve any late applications received after the Easter break.***

c. The Clerk submitted, for consideration, the final small grant applications for 2015/16.

- Cllr S Roy retired from the meeting during consideration of the grant application from NWAMI, having declared a personal and prejudicial interest.

Resolved to recommend that Small grants be approved, as detailed in Schedule 'C' attached, to include payment of two of them from the budget remaining for Youth Grants for 2015/16.

d. Members were asked to consider making a donation to the Sir JHM Jones Trust fund from any unspent youth or small grants budgets. It was noted that, following this evening's allocations, approximately £4,500 remained unallocated across these two budget headings for 2015/16.

Cllrs J Davies, H Meredith and V Smith retired from the meeting during consideration of this item, having declared a personal and prejudicial interest as Trustees.

Resolved to approve of a donation of £4,500 to the Trust Fund from the unallocated small grants and youth grants budgets for 2015/16.

e. The Clerk submitted, for consideration, a late large grant application for 2016/17 from Cruse Bereavement Care Ltd. It was noted that Cruse apply for a large grant each year to cover the costs of their hire of an office in the Town Hall. Unfortunately their treasurer had retired late last year and the new office holder had not been made aware of the need to apply for the funding. Under the circumstances, members agreed to consider the late application.

Resolved to approve a late large grant of £2,300 for Cruse Bereavement Care towards the rental of their office in Colwyn Bay Town Hall, and to increase the large grants budget accordingly (from general reserves).

The meeting closed at 7:10 p.m.

……. Chairman